

System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai

Mae'r canllaw hwn, a gyhoeddwyd gan Rhentu Doeth Cymru, yn rhoi gwybodaeth i landlordiaid am y 29 o beryglon a ddefnyddir i asesu addasrwydd annedd dan System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai (SMIDT).

Cyflwynwyd y SMIDT gyda Deddf Tai 2004, ac mae'n disodli'r safon ffitrwydd tai blaenorol. Cyflwynodd y llywodraeth y system fel ffordd o benderfynu a oedd amodu tai safleoedd preswyl yn foddhaol. Mae'n edrych ar safleoedd i weld a oes ganddynt unrhyw ddiffygion a allai achosi peryglon, a allai niweidio'r preswylwyr, neu unrhyw ymwelwyr. Dylai eiddo preswyl allu bodloni

anghenion sylfaenol bywyd dyddiol cartref, fel rhoi lloches, lle a chyfleusterau i breswylwyr.

Mae'r SMIDT yn asesu 29 o beryglon tai a'r effeithiau y gallai'r rhain gael ar iechyd a diogelwch y preswilydd presennol neu'r preswilydd yn y dyfodol neu unrhyw ymwelydd â'r eiddo. Mae'n berthnasol i bob eiddo preswyl p'un a yw'r perchennog tai neu denant yn byw ynddo ai peidio. Nid yw'n bosibl gwaredu pob risg o niwed o'r eiddo'n llwyr, ond mae'r system yn cynnig ffordd i asesu peryglon ac i benderfynu ar y ffordd orau o ymdrin â nhw.



Gofynion Ffisiolegol

1. Tyfiant Llwydni Llaith



Bygythiadau i iechyd o ganlyniad i widdon llwch neu dyfiant llwydni, gan gynnwys bygythiadau i iechyd lles cymdeithasol a meddwl yn ymwneud â lleithder ac ati.

Effeithiau ar iechyd: alergenau, asthma, effeithiau tocsinau gan lwydni, heintiau ffwngaid

3. Gwres Gormodol



Bygythiadau o ganlyniad i dymereddau aer dan do eithriadol o uchel

Effeithiau ar iechyd: diffyg hylif, trawma, strôc, anhwylderau cardiofasgwlaidd, anadlol a chenhedlol-wrinol.

5. Bywleiddiad



Bygythiadau i iechyd gan gemegion a ddefnyddir i drin coed a thyfiant mowld.

Effeithiau ar iechyd: risgiau o anadlu i mewn, cyswllt â'r croen, amlyncu (bwyta neu yfed y cemegyn)

7. Plwm



Bygythiad i'r iechyd o amlyncu plwm. Ffynonellau plwm: paent, pibellau dŵr, pridd, mygdarthau o betrol plwm.

Effeithiau ar iechyd: gwenwyn plwm, anhwylderau nerfol, iechyd meddwl, problemau cynhyrchu gwaed, problemau ymddygiad mewn plant.

9. Nwy tanwydd anhylog



Bygythiad o nwy tanwydd sydd wedi dianc i mewn i'r atmosffer yn yr annedd.

Effeithiau ar iechyd: mygu

2. Oerni gormodol



Bygythiadau i iechyd gan dymereddau dan do is-optimaid. Oddeutu 21°C yw'r tymheredd dan do iach.

Effeithiau ar iechyd: anadlu (ffliw, niwmonia a bronchitis), cyflyrau cardiofasgwlaidd (trawiad ar y galon a strociau), nam ar y system thermoreoliadol (system reoli tymheredd y corff) ac ati.

4. Asbestos (a MMF)



Presenoldeb ffibrau asbestos a MMF mewn annedd a dod i gysylltiad â nhw.

Effeithiau ar iechyd: Clefyd pliwrol, canser yr ysgyfaint, mesothelioma NODER: Mae ceisio gwaredu asbestos sydd mewn cyflwr da ac nad yw'n debygol y bydd rhywbeth yn tarfu arno yn llawer mwy peryglus na pheidio â'i waredu. Dylai contractwr a drwyddedir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch weithio ar asbestos.

6. Carbon monocsid a chynhyrchion hylosgi tanwydd



Peryglon o ganlyniad i bresenoldeb lefelau gormodol o garbon monocsid, nitrogen deuocsid neu sylffwr deuocsid yn yr atmosffer yn yr annedd.

Effeithiau ar iechyd: Pendro, cyfog, cur pen, dryswch, anymwybyddiaeth, anhwylderau anadlol, bronchitis a diffyg anadl.

8. Ymbelydredd



Bygythiadau i'r iechyd o nwy radon a'i ddisgynyddion, o'r awyr yn bennaf, ond hefyd radon wedi'i hydoddi mewn dŵr, pryderon am effeithiau posibl ar yr iechyd o feysydd electromagnetig (EMF), Gollyngiadau o ficrodon (prin).

Effeithiau ar iechyd: Canser yr ysgyfaint a achosir gan ddod i gysylltiad â nwy radon. Mae'r risg yn cynyddu yn ddibynnol ar dds o nwy a hyd y cysylltiad â'r nwy.

10. Cyfansoddion organig ffrwydrad



Grŵp amrywiol o gemegion organig, gan gynnwys fformaldehyd, sy'n nwyol ar dymheredd ystafell ac sydd i'w cael mewn ystod eang o ddeunyddiau yn y cartref.

Effeithiau ar iechyd: alergeddau, cosi poenus i'r llygaid, trwyn a chroen a phibellau anadlu, cur pen, cyfog, pendro a syrthni.

Gofynion Seicolegol

11. Gorlenwi a lle



Peryglon yn gysylltiedig â diffyg lle i fyw, cysgu ac ar gyfer bywyd cartref/teulu arferol.

Effeithiau ar iechyd: tralod seicolegol ac anhwylderau meddwl, mwy o risg i hylendid a risg o ddamweiniau a chyfaddawdu ar anghenion lle personol a

12. Tresmasu



Anawsterau wrth gadw'r annedd yn ddiogel yn erbyn tresbaswyr a chynnal lle amddiffynadwy.

Effeithiau ar iechyd: Ofni lladrad, gofid a achosir gan ladrad, anafiadau a achosir gan dresbaswyr.

13. Goleuadau



Bygythiadau i iechyd corfforol a meddwl yn gysylltiedig â golau naturiol annigonol/artiffisial, gan gynnwys effeithiau seicolegol yn gysylltiedig â'r olygfa o'r annedd trwy wydr.

Effeithiau ar iechyd: iselder ac effeithiau seicolegol o ganlyniad i ddiffyg golau naturiol, straenio'r llygaid oherwydd llacharedd a golau annigonol.

14. Sŵn



Bygythiadau i iechyd corfforol a meddwl o ganlyniad i ddod i gysylltiad â sŵn yn yr annedd neu oddi mewn i'w gwrtil.

Effeithiau ar iechyd: Newidiadau seicolegol a ffisiolegol o ganlyniad i gwsg anesmwyth, diffyg canolbwytio, cur pen a gofid.

Amddiffyn yn Erbyn Heintiau

15. Hylendid domestig, plâu a sbwriel



Dyluniad, trefn ac adeiladwaith gwael, sy'n golygu na ellir cadw'r annedd yn lân ac yn hylan, mynediad i mewn i'r annedd i blâu a lloches ar eu cyfer, darpariaeth annigonol ac anhylan i storio a gwaredu gwastraff cartref.

Effeithiau ar iechyd: Clefyd yn y stumog a'r coluddion, haint, asthma, alergeddau, bwyd yn pydru, clefyd o lygod mawr ac adar a pheryglon corfforol.

16. Diogelwch Bwyd



Bygythiadau o haint gan ddarpariaeth a chyfleusterau gwael ar gyfer storio, paratoi a choginio bwyd.

Effeithiau ar iechyd: Clefyd yn y stumog a'r coluddion, dolur rhydd, chwydu, bola tost a diffyg hylif.

17. Hylendid personol, iechydaeth a draeniau



Bygythiadau o haint a bygythiadau i iechyd meddwl yn gysylltiedig â hylendid personol, gan gynnwys cyfleusterau golchi personol a dillad, iechydaeth a draeniau.

Effeithiau ar iechyd: clefyd yn y stumog a'r coluddion, gan gynnwys dysentri, heintiau croen ac iselder.

18. Cyflenwad dŵr



Ansawdd a digonolrwydd y cyflenwad dŵr yn yr annedd ar gyfer yfed a phwrpasau domestig, gan gynnwys bygythiadau i iechyd o facteria, protosoa, parasitiaid, firsau a llygryddion cemegol.

Effeithiau ar iechyd: diffyg hylif, blinder, cur pen, croen sych, heintiau pledren, anhwylderau stumog, coluddion ac anadlol, clefyd Legionnaire

Amddiffyn yn erbyn Damweiniau

19. Cwmpïadau yn gysylltiedig â baddonau ac ati



Cwmpïadau yn gysylltiedig â baddon, cawod neu gyfleuster tebyg.

Effeithiau ar iechyd: Anafiadau corfforol, briwiau, rhwygiadau, chwyddo a chleisiau.

20. Cwmpïo ar arwynebau lefel ac ati



Cwmpïadau ar arwynebau lefel fel lloriau, iardiau a llwybrau, gan gynnwys cwmpïadau yn gysylltiedig â baglu dros stepiau, trothwyau neu rampiau pan fo'r newid yn y lefel yn llai na 300mm.

Effeithiau ar iechyd: anafiad corfforol, cleisiau, toresgryn, anafiadau i'r pen, yr ymennydd neu'r asgwrn cefn

21. Cwmpïo ar risiau ac ati



Cwmpïadau yn gysylltiedig â grisiau, stepiau a rampiau pan fo'r newid yn y lefel yn fwy na 300mm. Mae'n cynnwys cwmpïadau yn gysylltiedig â grisiau neu rampiau mewnol yn yr annedd, stepiau neu rampiau allanol yng nghwrtil yr annedd; grisiau neu rampiau mewnol cyffredin a stepiau neu rampiau yng nghwrtil yr adeilad sy'n cynnwys yr annedd a'r rhai sy'n rhoi mynediad i'r annedd ac i'r cyfleusterau a rennir neu sy'n rhoi modd i ddianc mewn achos tân. Mae'n cynnwys cwmpïo dros falwstrad yn gysylltiedig â grisiau, stepiau neu rampiau.

Effeithiau ar iechyd: anafiad corfforol, cleisiau, toresgryn, anafiadau i'r pen, yr ymennydd a'r asgwrn cefn


22. Cwmpïo rhwng lefelau



Cwmpïadau o un lefel i un arall, y tu mewn i'r annedd neu'r tu allan iddo lle bo'r gwahaniaeth rhwng lefelau yn fwy na 300mm, e.e. cwmpïadau rhwng balconïau, pen grisiau, allan o ffenestri, dros walïau'n cynnal gerddi ac ati.

Effeithiau ar iechyd: anafiadau corfforol

23. Peryglon Trydanol



Peryglon o siociau a llosgiadau o ganlyniad i ddod i gysylltiad â thrydan, gan gynnwys ymosodiadau chwim.

Effeithiau ar iechyd: Sioc

24. Tân



Bygythiadau o ganlyniad i ddod i gysylltiad â mwg sy'n gysylltiedig â tân na ellir ei reoli yn yr annedd. Mae'n cynnwys anafiadau o ddillad yn mynd ar dân, sy'n rhywbeth cyffredin pan fo pobl yn ceisio diffodd tân o'r fath.

Effeithiau ar iechyd: llosgiadau, cael eich llethu gan fwg neu nwy, marwolaeth.

25. Fflamau, arwynebau poeth ac ati



Bygythiad o losgiadau – anafiadau a achosir gan gysylltiad â fflam poeth neu dân, gyda gwrthrychau poeth neu hylifau poeth heb sail dŵr; sgaldiadau a achosir gan ddod i gysylltiad â hylifau ac anweddau poeth. Yn cynnwys llosgiadau a achosir gan ddillad yn mynd ar dân.

Effeithiau ar iechyd: llosgiadau, sgaldiadau, creithiau sefydlog, marwolaeth.

26. Gwrthdaro a maglu



Risg o anafiad trwy faglu rhannau o'r corff mewn nodweddion pensaernïol, e.e. maglu bysedd mewn drysau, nenfydau a walïau isel.

Effeithiau ar iechyd: anafiadau o ganlyniad i wrthdaro neu faglu yn cynnwys drysau a ffenestri, e.e. briwiau o wydr, cau drws ar ran o'r corff.

Amddiffyn yn erbyn Damweiniau

27. Ffrwydradau



Byggythiad o ffrwydrad, o falurion ffrwydrad ac o adeilad yn cwmpo'n rhannol neu'n gyfan gwbl o ganlyniad i ffrwydrad.

Effeithiau ar iechyd: Er nad yw ffrwydrad yn debygol iawn, gall anafiadau gynnwys: anafiadau corfforol, mathru, cleisiau, trywaniad, toresgyrn, anafiadau i'r pen, yr ymennydd neu'r asgwrn cefn, sgaldiadau os yw'n cynnwys dŵr poeth.

28. Lleoliad amwynderau ac ati a'u gallu i weithredu



Byggythiadau o bwysau corfforol yn gysylltiedig â lle gweithredol a nodweddion eraill mewn anheddau.

Effeithiau ar iechyd: ysgigiadau.

29. Strwythur ac elfennau'n cwmpo



Byggythiad o'r annedd yn cwmpo neu ran o'r ffabrig yn cael ei ddadleoli neu'n cwmpo o ganlyniad i osodiadau annigonol, dadfeilio, neu o ganlyniad i dywydd gwael.

Effeithiau ar iechyd: anafiadau corfforol

Effeithiau ar yr Iechyd ac Atal

Mae rhai peryglon yn fwy tebygol o ddigwydd nag eraill, er enghraifft mae anafiadau'n gysylltiedig â chwympiadau'n gyffredin, ac mae rhai ag effaith mwy di-oed neu fwy difrifol ar statws iechyd. Mae'r effeithiau iechyd tymor hir a di-oed a achosir gan y peryglon hyn yn amrywio ac nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r rhai a restrir yn y canllaw hwn. Gall gwybodaeth bellach sydd yn y SMIDT gynorthwyo landlordiaid wrth ganfod peryglon yn eu heiddo a rhoi gwybodaeth iddynt am atal a lleihau risgiau.

Rhagor o wybodaeth

Mae gwybodaeth manwl am y SMIDT ar gael ar wefan Swyddfa'r Dirprwy Prif Weinidog yn www.odpm.gov.uk. Mae'r

canllawiau a ddarperir gan y Llywodraeth sef System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai – Canllawiau Gweithredu ISBN 13: 978 1185112 846 4 ar gael i'w lawrlwytho o wefan Rhentu Doeth Cymru, neu i'w prynu gan Stationary Office Ltd, PO Box 29, Norwich NR3 1GN.

Rhentu Doeth Cymru

Lansiwyd Rhentu Doeth Cymru ar 23 Tachwedd 2015. Mae Rhentu Doeth Cymru yn prosesu cofrestradau landlordiaid ac yn rhoi trwyddedau i landlordiaid ac asiantau y mae angen iddynt gydymffurfio â Deddf Tai (Cymru) 2014. I ddysgu mwy am y cynllun a'ch hawliau a'ch cyfrifoldebau fel landlord, gallwch ddod o hyd i wybodaeth ar ein gwefan yn: <https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/> neu cysylltwch â ni ar 03000133344.